Sul Y Beibl 2023

Cynllun Pregeth

Nehemeia 8.1-11 (Beibl.net)

Dathlu Gair Duw

Yn Nehemeia 8.1–11 clywn hanes darllen y gyfraith i bobl Israel ar ôl iddynt ddychwelyd o alltudiaeth yn Babilon. Mae'r adnodau yma yn ddefnyddiol iawn o ran dechrau sgwrs am bwysigrwydd gair Duw i'w bobl heddiw. Fframwaith pregeth yw'r ddogfen hon gyda syniadau a allai fod o gymorth i chi naill ai wrth feddwl am y darn eich hunain, neu wrth rannu nhw gydag eraill.

Cyflwyniad

Cwestiwn: oes unrhyw un yn gwybod ym mha adeilad cyhoeddus yn y DU y ceir gweld y geiriau hyn yn Lladin?

> 'Os ydy'r ARGLWYDD ddim yn adeiladu'r tŷ, mae'r adeiladwyr yn gweithio'n galed i ddim pwrpas.' (Salm 127.1)

Ateb: fe'u mewnosodir yn llawr y Cyntedd Canolog yn Nhŷ'r Senedd yn San Steffan. Maent yn atgoffa ni fod yr Ysgrythurau wedi ffurfio, siapio a darparu'r sylfeini ar gyfer y wlad. Mae gair Duw yn sylfaen gadarn nid yn unig i genedl, ond yn enwedig i bobl Dduw wrth i ni ddod i'w ddeall a byw yn ôl ei dysgeidiaeth.

Cefndir

Cyrhaeddodd Nehemeia yn ôl i Jerwsalem tua 445 CC. Fe'i danfonwyd yna gan y Brenin Artaxerxes sef y Brenin roedd yn fwtler iddo. Hon oedd yr ail ddychweliad; roedd Esra wedi cyrraedd ychydig flynyddoedd ynghynt. Roedd pobl Israel wedi bod yn alltud ym Mabilon tua 140 mlynedd ynghynt; wedi hynny cafodd Babilon ei wrthdroi fel rhanbarth uwch rym gan y Mediaid a'r Persiaid (539 CC). Er bod y deml wedi'i hailadeiladu ac roedd ymdrechion i ailadeiladu'r genedl wedi dechrau, nid oedd y cyfan yn ddi-rwystr; mae llyfr Nehemeia yn dweud wrthym am y treialon a'r anawsterau y wynebodd ef a'r arweinwyr eraill. Roedd darllen y Gyfraith yn foment allweddol iddyn nhw wrth iddynt sylweddoli ac ailddatgan eu hunaniaeth fel pobl Dduw, oedd wedi eu rhwymo iddo mewn cyfamod sanctaidd.

Ysgrifennwyd y Gyfraith – efallai llyfr Deuteronomium– yn Hebraeg, ond yn ystod eu halltudiaeth roedd iaith y bobl wedi newid i Aramaeg. Ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl wedi deall beth oeddent yn clywed, felly cafodd ei gyfieithu a'i egluro ar eu cyfer.

Clywed gair Duw

1. **Roedden nhw'n ddisgwylgar**

Roedd Nehemeia a'r offeiriaid wedi paratoi'n ofalus ar gyfer y digwyddiad hwn. Roedden nhw wedi paratoi llwyfan pren fel y gellid gweld Esra. Sicrhawyd fod pawb yno. Roeddent wedi trefnu i'r Lefiaid esbonio ystyr yr hyn oedd yn cael ei ddarllen. Byddai'r Lefiaid hyn wedi gorfod astudio a thrafod y testun ymlaen llaw er mwyn gwybod beth i'w ddweud. Roedd y digwyddiad cyfan wedi'i gynllunio fel canolbwynt a sylfaen y gymuned newydd hon. Fe'i hadeiladwyd o amgylch gair Duw, ac roeddent wedi 'gwrando yn astud' am tua chwech awr!

I feddwl am: sut ydyn ni'n gosod gair Duw yng nghanol ein haddoliad heddiw? Ydyn ni'n cynllunio'n ofalus ac yn astudio'n galed? Ydyn ni'n gwrando ar ei eiriau?

2. Cawsant eu bwydo yn ôl eu hanghenion

Rhoddodd y Lefiaid gyfieithiad llafar o Gyfraith Duw a'i hesbonio er mwyn i'r bobl ei deall (adnod 8). Roedd rheswm da dros hyn, cynulleidfa gymhleth oedd hon. Roedd rhai wedi dod yn selog yn eu ffydd ynghanol amgylchedd gelyniaethus yr Ymerodraeth Fabilaidd a'r rhai ac roedd eraill wedi colli eu ffordd heb arweinydd. Efallai bod yna ffrithiant rhwng y gwahanol grwpiau. Roedd pawb angen clywed gair Duw ar eu cyfer nhw'u hunain.

I feddwl am: Mae'r Beibl yn gofnod gwych o ddigwyddiadau, dysgeidiaeth a gweledigaethau, ond mae'n cynnwys pethau sy'n anodd eu deall. Cymerodd hi amser a sgil i'r Lefiaid medru egluro'r gyfraith. Mae pob un ohonom angen help gan y rhai hynny sydd wedi mynd o'n blaenau, ac mewn diwylliant lle nad yw pobl yn darllen nac yn deall y Beibl gymaint ag yr oeddent ar un cyfnod, mae'n bwysicach fyth ei 'gyfieithu' mewn ffyrdd y gallant eu deall.

3. Cawsant eu newid gan yr hyn a glywsant

Adnod 9, "Roedd y bobl wedi dechrau crio wrth wrando ar y Gyfraith yn cael ei darllen iddyn nhw. A dyma Nehemeia'r llywodraethwr, Esra'r offeiriad a'r ysgrifennydd, a'r Lefiaid oedd yn rhoi'r esboniad, yn dweud, "Mae heddiw'n ddiwrnod wedi'i gysegru i'r ARGLWYDD eich Duw. Peidiwch alaru a chrio." Roedd y bobl yn ymwybodol o'u cyflwr ysbrydol gwan, ac yn drist o weld eu bod wedi syrthio'n fyr. Ond mae Nehemeia ac Esra yn dweud wrthyn nhw am beidio â chanolbwyntio am bechod, ond yn hytrach i fwynhau a dathlu'r hyn a wnaeth yr Arglwydd iddynt. Mae gair Duw yn amlygu ein pechodau, ond llawer mwy, mae'n dod â gras a gwybodaeth am gariad a maddeuant.

I feddwl am: pa mor hyderus ydym ni yng ngrym Gair Duw i dorri trwy ein hunanoldeb a'n calonnau caled a newid ein meddyliau? Ydym ni yn agored i'w eiriau o fendith yn ogystal â'i eiriau o ymsennu? Oes gennym storïau y gallwn rannu gyda'n gilydd am sut y mae wedi siarad â ni?

I orffen

Cafodd y bobl eu rhwymo at ei gilydd fel cymuned wrth iddynt ymgasglu o amgylch gair Duw. Gallwn ninnau hefyd ddod ynghyd o amgylch bwyd a'r Ysgrythurau i rannu storïau, gobeithion ac ofnau. Mae'r Beibl yn trawsffurfio bywydau oherwydd mai'r gair ysgrifenedig sy'n ein harwain at Iesu. " Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni." meddai Ioan yn y prolog i'w Efengyl (Ioan 1.14, Beibl.net)

Fel yn nyddiau Esra a Nehemeia, mae gair Duw yn ganolog i ddeall ein lle yn y byd a sut mae byw. Mae'n dangos i ni mai gwirionedd a gras Iesu Grist yw gobaith ein bywydau a gobaith y byd.

Adnoddau

Mae Agor y Llyfr - Bible Society yn un o weinidogaethau mwyaf sefydledig ac effeithiol Cymdeithas y Beibl. Mae'n cyflwyno gair Duw i blant ysgol drwy adrodd straeon arloesol, dramâu a chyfranogiad y gynulleidfa. Mae timau gwirfoddol mewn ysgolion ledled y wlad yn adrodd straeon 10-15 munud i wasanaethau ysgolion cynradd. Tybed a allai eich eglwys neu gapel chi ffurfio tîm Agor y Llyfr i rannu gair Duw gyda phlant heddiw, fel y gwnaeth Esra flynyddoedd yn ôl?

Mae Pecyn Cwrs y Beibl - Bible Society yn gyfres fideo sy'n rhoi trosolwg llawn o'r Ysgrythur, ac mae'n un o adnoddau mwyaf poblogaidd Cymdeithas y Beibl.

Yn dilyn hynny, mae Cymdeithas y Beibl wedi lansio Cwrs y Rhufeiniaid The Romans Course - Bible Society yn ddiweddar ar gyfer grwpiau bach i annog ni i drochi yn un o lythyrau mwyaf poblogaidd Paul. Gydag esboniadau o ddinas Rhufain, cwestiynau trafod a thystiolaethau ar gyfer pob sesiwn, mae'r gyfres deg rhan hon yn ffordd wych o fynd i'r afael â llythyr heriol.

Mae Cymdeithas y Beibl eisiau i bawb gael mynediad i'r Beibl a deall ei neges ar eu cyfer. Rydym yn cyfieithu'r Beibl i wahanol ieithoedd, ac rydym yn gwahodd pobl i ymgysylltu ag ef drwy'r adnoddau rydym yn eu darparu. Ar Sul y Beibl hwn, ystyriwch gefnogi cynllun Beibl a Mis Bible a Month - Bible Society Cymdeithas y Beibl sy'n ariannu Beiblau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am yr Ysgrythurau o £10 y mis.